



Fforwm Arfordir Sir Benfro (PCF)



Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person

Teitl y Swydd:	Cydlynnydd Prosiect Ynni Morol Cymru (Prosiect SELKIE)
Cyflog:	£26,000 y flwyddyn
Yn Atebol i:	Rheolwr Rhaglen Ynni Morol Cymru
Lleoliad:	2 ^{il} Lawr, Pier House, Pier Road, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6TR
Yn gweithio gyda:	PCF a tîm Ynni Morol Cymru / tîm SELKIE
Hyd y Contract:	1 blwyddyn (cyfnod mamolaeth) o Orffennaf 2021

Diben y Swydd

Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro (PCF), a sefydlwyd yn 2000, yn Gwmni Buddiannau Cymunedol sydd wedi ennill sawl gwobr ac mae'n gweithio i wella amgylcheddau'r arfordir a'r môr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Fel partneriaeth arfordirol, mae PCF wedi datblygu amrywiaeth o brosiectau cydweithredol, a ystyrir yn aml fel arfer gorau cynaliadwy, gan gynnwys Cod Morol Sir Benfro a Siarter Awyr Agored, Mapio Gweithgaredd Cymru ac Ynni Morol Cymru.

Mae Ynni Morol Cymru (MEW), prosiect llwyddiannus PCF, yn dod â datblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, y byd academiaidd a'r sector cyhoeddus at ei gilydd gyda'r nod o greu sector ynni morol ffyniannus ac amrywiol yng Nghymru.

Bydd y rôl gyffrous hon yn cynnwys gweithio gydag MEW, y tîm PCF a phartneriaid ehangach y prosiect ynni morol i gyflwyno'r pecyn 'Dissemination Communication and Mobilisation' y prosiect ynni morol. Bydd eich rôl yn cynnwys helpu i sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau'r prosiect yn cael eu rhannu a'u cyfathrebu'n effeithiol trwy amrywiaeth o sianelau, i holl randdeiliaid y prosiect.

Cyflwynir prosiect INTERREG Cymru Iwerddon gan gonsortiw m o 2 sefydliad addysg uwch Coleg y Brifysgol Cork a Phrifysgol Abertawe a 4 BBaCh arbenigol; GDG Ltd; DP Energy Ireland Ltd; Ynni Morol Cymru (MEW) a Menter Môn gyda'r nod o hwyluso masnacheiddio technolegau Ynni Adnewyddadwy Morol i'w defnyddio yn Iwerddon a Chymru.

Prif Gyfrifoldebau

Gan weithio gyda phartneriaid prosiect allweddol, bydd y Cydlynnydd Prosiect yn cynorthwyo gyda:

- **Cyflawni gofynion y cynllun cyfathrebu a'r strategaeth sy'n bodoli eisioes** gyda'r nod o gyfleu negeseuon allweddol a dysgu o'r prosiect.
- **Cyflawni gofynion y strategaeth mobileiddio.**
- Datblygu cynnwys ar gyfer, a rheoli, [gwefan y prosiect](#).
- Parhau i reoli **ymgyrch cyfryngau cymdeithasol** ar gyfer lledaenu a

chyfathrebu.

- **Paratoi a rheoli datganiadau i'r wasg ac erthyglau** gan gynnwys nodi canfyddiadau sy'n deilwng i'w cyhoeddi a chefnogaeth i bartneriaid wrth baratoi erthyglau.
- **Cynnal a chyd-gynnal Cynadleddau** a Fforymau sy'n cysylltu â INTERREG a WEFO.
- **Trefnu digwyddiadau SELKIE** gan gynnwys cynadleddau, fforymau a gweithdai (arlein, cymysg ac mewn person) sy'n cysylltu â INTERREG a WEFO **a darparu deunyddiau hyrwyddo gweledol** i gefnogi digwyddiadau.
- **Datblygu deunyddiau hyfforddi** i hwyluso dysgu cydfuddiannol o sylfaen wybodaeth SELKIE.
- **Adrodd ar gynnydd** i Reolwr Rhaglen MEW, PCF a'r tîm rheoli prosiect SELKIE.
- **Presenoldeb mewn cynhadleddau** ar gyfer hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth am y prosiect gan gynnwys datblygu deunyddiau (stondinau, deunyddiau hyrwyddo ac yn y blaen).
- Darparu **gwybodaeth allweddol i gefnogi hawliadau grant** i'r Rheolwr Cyllid, Adnoddau Dynol a Pholisi PCF.
- Dyletswyddau eraill ar lefel debyg yn ôl yr angen.

Manyleb y Person

Hanfodol:

- Yn gymwys i lefel gradd neu gyfwerth.
- Profiad rheoli prosiect profedig a pherthnasol mewn sector cysylltiedig.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) a lledaenu gwybodaeth yn cynnwys paratoi a chyflwyno adroddiadau a chyflwyniadau.
- Sgiliau trefnu datblygedig iawn gyda phrofiad o drefnu a chynnal digwyddiadau.
- Profiad o ymgysylltu ac adeiladu perthynas â, a rheoli ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r gymuned academiaidd.
- Profiad o weithio gyda phrosiectau Ewropeaidd neu brosiectau a ariennir gan grantiau.
- Sgiliau TG rhagorol.
- Yn rhagweithiol, hunan-gymhellol gyda'r gallu i weithio heb fawr o oruchwyliaeth ac o dan bwysau.
- Bydd teithio cyson i gynadleddau a digwyddiadau Cenedlaethol ac Ewropeaidd yn rhan hanfodol o'r rôl hon ac mae parodrwydd a hyblygrwydd i deithio yn hanfodol gan gynnwys pasbort / cerbyd dilys.

Dymunol

- Diddordeb cryf mewn cynaliadwyedd ac ynni adnewyddadwy.
- Cymhwyster mewn Rheoli Prosiectau.
- Y gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r gallu i deithio i gyfarfodydd / digwyddiadau / ymweliadau safle ac ati gan gynnwys arosiadau dros nos yn nodwedd angenrheidiol a rheolaidd o'r swydd hon. Bydd y swydd yn cynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol.

Gall disgrifiadau swydd a Manylebau Person newid o bryd i'w gilydd i aros yn unol ag anghenion busnes. 24/5/21.



Ariennir prosiect SELKIE gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd drwy raglen Cydweithrediad Iwerddon a Chymru.